**Atodiad 'A'**

# CYMDEITHAS DEFAID LLEYN CYF.

Adroddiad o Gyfarfod Blynyddol Cymdeithas Defaid Lleyn Cyf. a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Centurion, Midsomer Norton, Nos Sadwrn, 26ain Hydref, 2024, o 6.00 y.h hyd 6.50 y.h.

Presennol: Yn unol â'r Gofrestr Presenoldeb
Ymddiheuriadau: Fel eu cofrestrwyd.

## 1. CROESAWU

**Croesawodd** Cadeiryddes y Cyngor, Mrs. Bethan Vaughan, yr aelodau i'r cyfarfod.

## 2. LLYWYDD AM Y FLWYDDYN 2024/2025

**Etholwyd** Mr. A. Wynne Davies yn Llywydd am y flwyddyn 2024/2025.
Cynigiwyd gan Siôn Bryn Roberts ac eiliwyd gan Gill Adams gyda phawb yn gefnogol.
Cymerodd Mr. A. Wynne Davies y gadair am weddill y cyfarfod a diolchodd unwaith yn rhagor am yr anrhydedd ddaeth i'w ran a hynny am ei flwyddyn olaf fel Llywydd. Mynegodd ei fod yn ei theimlo'n fraint ac anrhydedd cael bod yn Llywydd y Gymdeithas ac iddo fwynhau'r profiad. Bellach mae'n dathlu ei hanner canfed o fod yn aelod o'r Cyngor ac hefyd o arddangos yn y Sioeau ac fod y cyfan wedi rhoi boddhad iddo. Diolchodd i'r Gadeiryddes am ei gwaith dros y flwyddyn yn llywio'r holl weithgareddau mewn modd proffesiynol.

## 3. IS-LYWYDD AM Y FLWYDDYN 2024/2025

**Etholwyd** Mr. John Geldard yn Is-lywydd y Gymdeithas am y flwyddyn 2024/2025.
Cynigiwyd gan David Knowles a gyfeiriodd nad oedd angen cyflwyno John Geldard gan ei fod yn arweinydd cadarn a hefyd yn annog a hybu'r brid i'r dyfodol. Eiliwyd y cynnig gan Colin Price gyda phawb yn gefnogol.

Yr un modd diolchodd yr Is-lywydd etholedig am y fraint o gael gwasanaethu am flwyddyn arall ac am fod yn rhan o'r Gymdeithas arbennig yma.

## 4. AELODAETH Y CYNGOR

**Adroddwyd** ar y rhai a etholwyd yn ddi-wrthynebiad i weithredu ar y Cyngor am gyfnod o dair blynedd:

| | |
|---|---|
| Lleyn ac Eifionydd (Rhanbarth 1) | A.W. Hughes (287) |
| | W.J. Williams (350) |
| Gogledd Cymru (Rhanbarth 2) | Sian Jones (2761) |
| De Cymru (Rhanbarth 3) | Richard Twose (552) |
| Canolbarth Lloegr (Rhanbarth 4) | Phyllida Hale (937) |
| De Lloegr (Rhanbarth 5) | Dominic Klinkenberg (2259) |
| Gogledd Orllewin a Gogledd Lloegr (Rhanbarth 6) | James Barrow (726) |

**Penderfynwyd** derbyn yr enwebiadau fel eu cofnodwyd uchod a llongyfarchwyd hwynt ar gael eu hethol am gyfnod o dair blynedd.
Cynigiwyd gan Gwenllian Roberts ac eiliwyd gan John Adams.

Diolchwyd i'r rhai a fu'n aelodau o'r Cyngor am gyfnod ond wedi penderfynu ymddeol y tro hwn – Dewi Ellis a Derek Bond.
Yr un modd diolchwyd am gyfraniad Y Diweddar Meurig Williams am ei wasanaeth dros y blynyddoedd.

**Nodyn – bydd 19 o aelodau yn gweithredu ar y Cyngor ynghyd â'r Llywydd a'r Is-lywydd yn rhinwedd eu swydd.**

**Yn y cyswllt hwn** cyflwynodd Sian Hughes deyrnged deimladwy er coffa am Meurig Williams – mae copi o'r cyfryw ar gael ar gais gan yr Ysgrifenyddes.

## 5. AELODAETH Y PWYLLGOR DISGYBLU

**Penderfynwyd** ethol yr aelodau a ganlyn i wasanaethu ar y Pwyllgor Disgyblu sef:
David Alexander, Rhys Davies, Wallace McCuride, Alan McDonald ac Alan West
Cynigwyd gan Richard Twose ac eiliwyd gan John Dugdale gyda phawb yn cytuno.
Diolchwyd i John Adams am gytuno i weithredu ar y Pwyllgor Disgyblu am gyfnod.

## 6. CADARNHAU COFNODION

**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd 28ain Hydref, 2023. Cynigwyd gan James Barrow ac eiliwyd gan Phyllida Hale gyda phawb yn cytuno.

## 7. ADRODDIAD Y GADEIRYDDES

**Cyflwynwyd** a derbyniwyd adroddiad y Gadeiryddes.
Cynigwyd gan John Geldard ac eiliwyd gan Phyllida Hale.
Diolchodd Bethan Vaughan, y Gadeiryddes am y fraint a ddaeth i'w rhan i gadeirio'r gweithgareddau a mynegodd ei diolchgarwch i bawb am ei chefnogi.

## 8. ADRODDIAD Y CYNGOR

**Cyflwynwyd** adroddiad ar weithrediadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.
Cynigwyd gan Phyllida Hale ac eilwyd gan Edward Adamson.

## 9. CYFLWYNO'R FANTOLEN ARIANNOL AM Y CYFNOD 1af EBRILL, 2023 i 31ain MAWRTH, 2024

a) **Cyflwynwyd** cyfrifon y Gymdeithas am y cyfnod 1af Ebrill, 2023 i 31ain Mawrth, 2024, fel y'u paratowyd gan Emyr Mortimer Archwilwyr Cyf. – Archwilwyr y Gymdeithas.
Ymhelaethodd y Trysorydd, David Knowles, ar y cyfrifon:
Gwelwyd elw eleni o £9,865.
Aeldaeth – gostyniad bach. Anogodd yr aelodau i dalu eu tâl aelodaeth drwy gyfrwng Debyd Uniongyrchol.
Cofrestru wyn benyw – gostyngiad. Eto anogodd yr aelodau i gofrestru eu ŵyn benyw.
Archwilio hyrddod – y ffigwr yma wedi bod yn gyson dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
Comisiwn o'r arwerthiannau – gostyniad bach
Hysbysebu – hwn i lawr oherwydd diffyg cael cwmniau i hysbysebu.
Oriau'r Ysgrifenyddes wedi cael ei gwtogi i bedwar diwrnod gwaith

Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu ddim yn dangos blwyddyn lawn o gyflog gan na fu iddi fod yn gyflogedig am y flwyddyn.
Blwyddlyfr – argraffwyd llai o gopiau y flwyddyn hon
Postio – gan fod y Gymdeithas yn ceisio mynd yn ddibapur yn y dyfodol, anogodd yr aelodau i roi eu cyfeiriad e-bost i'r swyddfa
Adroddodd y Trysorydd y bu'n flwyddyn lwyddiannus ar y cyfan a gwelwyd hynny oherwydd i'r buddsoddiadau dyfu mewn elw.
Wrth derfynu diolchodd y Trysorydd am gymorth yr Ysgrifenyddes a Bethan Vaughan, y Gadeiryddes, yn y paratodau i gwblhau'r cyfrifon.
**Penderfynwyd** derbyn y fantolen fel y'i cyflwynwyd a diolchwyd i David Knowles am ei adroddiad a'i waith yn ystod y flwyddyn.
Cynigiwyd gan Gill Adams ac eiliwyd gan Cathy Evans.

**b) Rhyddhad rhag gorfod cael archwiliad**
**Penderfynwyd** fod y Gymdeithas yn hawlio rhyddhad rhag gorfod cael archwiliad.
Cynigiwyd gan David Knowles ac eiliwyd gan James Barrow.

## 10. CYFRIFON

**Penderfynwyd** penodi Emyr Mortimer Archwilwyr Cyf yn Archwilwyr Swyddogol y Gymdeithas am y flwyddyn 2024/25.
Cynigwyd gan Siôn Bryn Roberts ac eiliwyd gan Phyllida Hale.

## 11. TÂL AELODAETH

**Yn unol â** Rheolau'r Gymdeithas, adolygwyd y tâl a delir yn flynyddol am ymaelodi â'r Gymdeithas. Ystyriwyd argymhelliad y Cyngor fod y tâl aelodaeth i'w godi i £35/€42 (heb TAW) o'r 1af Ionawr, 2025.

**Penderfynwyd** codi'r tâl aelodaeth i £35/€42 (heb T.A.W.) y flwyddyn yn ddyledus ar 1af Ionawr, 2025.
Cynigwyd gan John Geldard ac eiliwyd gan David Knowles.

## 12. AELODAU IFANC

**Ystyriwyd** derbyn ceisiadau i ymaelodi â'r Gymdeithas gan berson ifanc 10 oed a throsodd yn ddarostyngedig fod y rhiant/gwarcheidwad yn arwyddo'r ffurflen gais, ac unrhyw ddogfen arall, gyda'r ymgeisydd. Bydd hyn yn digwydd hyd nes bydd ef/hi wedi cael ei b(ph)enblwydd yn 16 oed.
**Penderfynwyd** cefnogi'r cais.
Cynigiwyd gan Sian Jones ac eiliwyd gan Richard Twose.

## 13. ENILLWYR Y CPWANNAU AM Y FLWYDDYN 2024

**Cwpan Barnard** am y pris uchaf am faharen/oen maharen yn Arwerthiant Rhuthun – A. Wynne Davies (50) – 1300gini
Cyflwynodd Ann Jones y gwpan i Wynne Davies
**Cwpan Cymdeithas Defaid** Lleyn am y pris uchaf am faharen/oen mharen yn Arwerthiant Ross-on-Wye – Lionel Organ 3400gini
Cyflwynodd Hannah Taylor y gwpan i Roger Wells ar ran Lionel Organ.
**Cwpan Roseland** am y pris uchaf am faharen/oen maharen yn Arwerthiant Caerwysg – Sian Hughes (825) 2500gini
Cyflwynodd John Adams y gwpan i Sian Hughes

**Cwpan Lluest Wen** am y pris uchaf am faharen/oen maharen yn Arwerthiant y Trallwng
J.A.ag R. Geldard a'r Meibion (621) 2,550gini
Cyflwynodd Colin Price y gwpan i John Geldard.
**Cwpan Clwb yr Alban a'r Gororau** am y pris uchaf o beniad o famogiaid gan aelod o'r Clwb unai yn Arwerthiant Stirling neu Caerliwelydd – Hamish Goldie (1312) £320 y pen
Cyflwynwyd y Gwpan gan Paul Barrow i David Knowles ar ran Hamish Goldie.
**Cwpan Coffa H.E. Roberts** am y nifer mwyaf o bwyntiau yn Sioeau Nefyn, Caernarfon a Môn – A. Wynne Davies (50).
Cyflwynwyd y Gwpan i Wynne Davies gan Sian Hughes.
**Cwpan Goffa Noel Baseley (Cwpan Bwyntiau) –** C. ag A. Kennedy (1618)
Cyflwynwyd y Gwpan gan Gwenda Roberts ar ran Mrs. Pat Baseley i Edward Adamson ar ran A & K. Kennedy.
**Llongyfarchwyd** yr aelodau am eu llwyddiant.

**Cyflwynwyd** tystysgrifau i'r rhai a ganlyn am yr anrhydedd ddaeth i'w rhan yn beirniadu yn un o'r Sioeau Brenhinol:
Sioe Frenhinol yr Ucheldir – Bethan Vaughan – cyflwynwyd y dystysgrif gan John Geldard
Sioe Frenhinol Cymru – Alan McDonald – cyflwynodd John Geldard y dystysgrif i Edward Adamson ar ran Alan McDonald
Sioe Frenhinol Ulster – Roger Wells – cyflwynodd John Geldard y dystysgrif i Roger Wells.

14. **UNRHYW FATER ARALL**
Tynwyd sylw at y perygl i blant ifanc yn y cylch arddangos yn y Sioeau.

15. **DIOLCHIADAU**

**Cyflwynwyd** y diolchiadau gan Bethan Klinkenberg (2259) Diolchodd i'r Llywydd, y Gadeiryddes a'r Trysorydd
Y ddwy aelod o'r staff
Y Tîm Archwilio'r Meheryn am eu gwaith arbennig.
Y Cyngor am eu gwaith yn hyrwyddo a llywio'r Gymdeithas
**Ategwyd y diolchiadau** gan Phyllida Hale (937) a diolchodd i Glwb y 'West Country' am benwythnos arbennig.